# SL(6)626 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2025

## Cefndir a diben

Fel rhan o'r newid i gerbydau â dim allyriadau ("ZEVs"), roedd Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023 ("Gorchymyn 2023") yn sefydlu pedwar cynllun masnachu ledled Prydain Fawr i gyfyngu ar nifer y cerbydau newydd nad ydynt yn ZEVs y gellir eu cofrestru ym Mhrydain Fawr, a'r allyriadau carbon deuocsid o gerbydau o'r fath.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2023 a Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2024 ("Gorchymyn 2024").

Roedd Gorchymyn 2023 a Gorchymyn 2024 yn dirymu ac yn cadw darpariaethau yn Rheoliad (EU) 2019/631 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 17 Ebrill 2019 a oedd yn gosod safonau perfformiad allyriadau carbon deuocsid ar gyfer ceir newydd ac ar gyfer cerbydau masnachol ysgafn newydd ("y Rheoliad"). Gellir parhau i arfer darpariaethau'r Rheoliad at ddibenion monitro a chydymffurfiaeth ar gyfer blynyddoedd cydymffurfio blaenorol.

Mae'r Rheoliad yn gyfraith a gymathwyd sy'n gosod targedau allyriadau CO2 penodol blynyddol ar gyfer gweithgynhyrchwyr sy'n cofrestru ceir newydd a cherbydau masnachol ysgafn yn y DU. Cyfrifir targedau ar sail maint fflyd cerbydau'r gwnethgynhyrchydd, yn unol â fformiwla tair rhan a geir yn Atodiad I i'r Rheoliad. Os yw'r gweithgynhyrchydd yn mynd dros ei darged, mae'n atebol i dalu premiwm allyriadau gormodol. Mae targedau allyriadau CO2 penodol gweithgynhyrchwyr o'r Rheoliad yn llywio'r llinellau sylfaen o ran carbon deuocsid ar gyfer Gorchymyn 2023

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y Gorchymyn hwn yn unioni'r anghysondeb a nodwyd yn null yr Adran Drafnidiaeth ("DfT") o ddefnyddio rhai gwerthoedd yr UE ar gyfer y targedau allyriadau carbon deuocsid penodol gan mai dim ond gwerthoedd y DU y mae cwmpas y Rheoliad yn caniatáu eu defnyddio wrth gyfrifo'r targedau perthnasol, yn groes i fwriad y polisi a'r dehongliad a gyflwynwyd mewn canllawiau. Mae'r Gorchymyn hwn yn galluogi gweithgynhyrchwyr i dderbyn y targed allyriadau CO2 penodol uwch naill ai o'r dull sy'n deillio o'r UE (fel y'i cyfathrebwyd yn flaenorol gan yr Adran Drafnidiaeth) neu ddull sy'n deillio o'r DU (fel y'i darllenir yn fanwl o'r Rheoliad).

Unwaith y bydd y monitro a'r cydymffurfiaeth wedi'u cwblhau ar gyfer 2021-2023 yn y DU a 2024 yng Ngogledd Iwerddon, ni fydd y Rheoliad fel y mae'n rheoleiddio allyriadau CO2 yn berthnasol mwyach. Felly mae'r Gorchymyn hwn *"yn darparu mesur dros dro i gywiro'r anghysondeb yn y modd y gosodwyd targedau ar gyfer blynyddoedd cydymffurfio 2021-2023 a 2024, cyn i'r rhwymedigaethau lleihau CO2 yn Rheoliad (EU) 2019/631 gael eu disodli'n llawn o 2025 ymlaen"*.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn yn y Cyfrin Gyngor gan Ei Fawrhydi cyn iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Gall y Senedd annilysu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd. Gall y tair deddfwrfa arall hefyd annilysu'r Gorchymyn, yn unol â'r rheolau ar gyfer annilysu sy'n gymwys i bob un o'r deddfwrfeydd hynny.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Gosodwyd y Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn (ym mharagraff 2.2):

> *"Gan y bydd yr offeryn hwn yn destun craffu gan Seneddau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog."*

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol (ym mharagraff 2.3):

> *"Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, comisiynodd Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig y Pwyllgor Newid Hinsawdd ("CCC") ar y cyd i roi cyngor ar yr offeryn hwn yn unol ag adran 48 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Cyhoeddwyd y cyngor hwn gan y CCC ar eu gwefan. Llythyr: Advice on zero-emissions vehicle (ZEV) mandate and carbon dioxide regulations for new cars - Climate Change Committee."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.